Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016





Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6939-6



Mae'r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.





Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.



# Cynnwys


Cyflwyniad 3




Sut wnaethon ni'r gwaith 7




Diolch 12

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont 13

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg 55




# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaetha gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o’r 22 cyngor lleol.




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad am Ben-y-bont**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru gyfan a'r fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwnaethon nhw ein helpu ni i wirio sut mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae'r adroddiad hwn yn dweud:




- beth wnaethon ni ei ddarganfod



- beth rydyn ni'n meddwl y mae angen i Gyngor Pen-y-bont a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei wneud.




# Sut wnaethon ni'r gwaith




Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Pen-y-bont a'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

2. Pa mor dda yw Pen-y-bont a'r Bwrdd Iechyd am:




- roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




3. A oes gan Gyngor Pen-y-bont a'r Bwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?




Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.

Edrychodd AGGCC ar Gyngor Pen-y-bont.




- Llenwodd Cyngor Pen-y-bont holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau ym Mhen-y-bont.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill ym Mhen-y-bont. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl.




- Treulion ni bythefnos ym Mhen-y-bont.



- Gwnaethon ni edrych ar ffeiliau 20 o bobl



- Gwnaethon ni darganfod mwy am 8 o'r bobl hynny



- Gwnaethon ni siarad â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol



- Aethom ni i ymweld â'r Ganolfan Adnoddau, prosiectau gwaith, llety mewn argyfwng a gwasanaethau dydd.




- Aethon ni i sgwrs gan Gyngor Pen-y-bont a'r Bwrdd Iechyd am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y Bwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy'n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano neu iechyd yn unig.




- Edrychon ni ar eu ffeiliau. Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol. Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr, yn cynnwys y person sy'n gyfrifol am wirio beth sy'n digwydd pan efallai nad yw pobl yn ddiogel.




- Cawson ni gyfarfod gyda'r tîm iechyd anableddau dysgu.



- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Pen-y-bont gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.




# Diolch




Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:



- bobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr



- darparwyr gwasanaeth



- cyrff gwirfoddol a phartneriaid eraill

# Cyngor Pen-y-bont

### Ynglŷn â Chyngor Pen-y-bont




Mae tua 141,000 o bobl yn byw ym Mhen-y-bont.




Rydyn ni'n credu bod tua 2,650 o oedolion ag anableddau dysgu ym Mhen-y-bont.




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont yn gwybod am 522 o oedolion ag anableddau dysgu.

O'r 522 o bobl:




- mae gan 455 o bobl reolwr achos




- mae 67 o bobl ond yn cael adolygiad blynyddol




- mae 47 o bobl yn aros i gael rheolwr achos




- mae 47 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn

Mae Cyngor Pen-y-bont yn rhan o Bwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin. Aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol yw:

- Cynghorau Pen-y-bont, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg



- darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

- sefydliadau gwirfoddol




Mae'r Pwyllgor am i bobl sydd angen gofal iechyd a chymdeithasol i gael bywydau gwell. Mae'r aelodau yn helpu pobl i gael bywydau gwell drwy feddwl gyda'i gilydd, cynllunio gyda'i gilydd a gwneud newidiadau gyda'i gilydd.



## Pethau da am yr hyn y mae Cyngor Pen-y-bont yn ei wneud

Dyma rai pethau da am Gyngor Pen-y-bont:



Mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn fodlon ar eu gofal a'u cymorth.




- Mae pobl ag anableddau dysgu yn rhan o'u cymuned.




- Mae gan y staff agweddau da am bobl ag anableddau dysgu.




- Mae gan rai pobl gynlluniau gofal ardderchog.



- Mae staff iechyd a staff gofal cymdeithasol yn dda am gydweithio.



- Mae gan Ben-y-bont gynlluniau da ar gyfer y dyfodol.




- Mae'r tîm 'asiant newid' yn helpu staff i baratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).




- Mae'r staff yn hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud os gallai rhywun fod yn anniogel.




- Mae staff a rheolwyr yn diogelu hawliau pobl ag anableddau dysgu.



- Mae’r Cyngor yn dweud "*mae gwelliannau yn cael eu gwneud yn gyntaf, a'r arbedion yn dilyn*".




- Rydym yn credu y gall Cyngor Pen-y-bont wneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn ei gynlluniau.



## Gweledigaeth a newid

Gweithiodd y Cyngor gyda Alder Advice i feddwl am y dyfodol. Gwnaethon nhw feddwl am y canlynol:




- beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu nawr, a beth allai fod angen arnyn nhw yn y dyfodol



- ffyrdd gwell o weithio gyda'r gymuned



- ffyrdd gwell o redeg gwasanaethau



- sut i wneud yn siŵr bod pawb sydd ag anableddau dysgu yn gallu cael eu cefnogi i ddysgu sgiliau newydd, i fod yn fwy hyderus ac i ddibynnu llai ar y Cyngor. Maen nhw'n galw hyn yn 'Fodel Dilyniant'.

Bydd Alder Advice yn helpu'r Cyngor i wneud y newidiadau hyn.




Mae'r Cyngor yn dda am wneud yn siŵr bod staff yn gwybod beth yw ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu ac ar gyfer bywydau pobl sydd ag anableddau dysgu. Er enghraifft, maen nhw'n cael cyfarfodydd 'Newid y Diwylliant' ar gyfer rheolwyr tîm.



Mae'r newidiadau er mwyn gwneud bywyd yn well i bobl. Mae'r newidiadau hefyd yn meddwl bod gwasanaethau yn costio llai o arian i'r Cyngor.




Mae gan y Cyngor gynllun ar gyfer 2014-2016 ar gyfer dewis, prynu a gwirio gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu. Mae angen i'r Cyngor wirio a yw'r cynllun yn gweithio.



Mae'r Cyngor yn gwneud newidiadau da. Ond mae'n golygu bod llai o amser gan staff i wneud swyddi pwysig fel:



- goruchwyliaeth



- adolygu cynlluniau gofal



- ceisiadau i gyfyngu ar ryddid rhywun



- ceisiadau i'r Llys pan na all rhywun wneud ei benderfyniadau ei hun am ei ofal a'i gymorth



- gwirio ansawdd ffeiliau pobl



Rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael cymorth da nawr.



Mae Cyngor Pen-y-bont yn bwriadu mynd yn llai. Bydd yn gwneud llai ei hun. Bydd yn gofyn i sefydliadau eraill wneud mwy. Bydd y Cyngor yn defnyddio mwy o gontractau tymor byr ar gyfer staff. Byddan nhw'n gwirio a oes angen iddyn nhw gael staff newydd yn lle'r rhai sy'n gadael.



## Lle mae pobl yn byw a beth mae pobl yn ei wneud yn ystod y dydd



Yn y gorffennol, roedd gan y rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu reolwr achos ac roedden nhw'n dibynnu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol.



Nawr, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad oes angen rheolwr achos ar tua 40 o bobl, ac nid oes angen gwasanaethau anableddau dysgu arnyn nhw.



Gallan nhw ddefnyddio gwasanaethau sydd ar gyfer unrhyw un.

Rhaid i'r Cyngor wirio sut mae'r newid mawr hwn yn effeithio ar fywydau pobl.



Mae'r newidiadau yn golygu bod ffyrdd newydd y mae pobl yn cael cymorth ar gyfer:



- lle maen nhw'n byw;



- pethau i'w gwneud yn ystod y dydd



Mae'r newidiadau yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, bod yn fwy hyderus a dibynnu llai ar y Cyngor. Mae gwneud y newidiadau hefyd wedi arbed arian.



Mae'r Cyngor wedi gwirio cynlluniau pobl i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y swm cywir o gymorth lle maen nhw'n byw. Roedd rhai pobl yn cael gormod o gymorth. Mae'n anodd bod yn fwy annibynnol os ydych yn cael gormod o gymorth.

Mae'r Cyngor wedi gwneud peth gwaith i gael gwybod:



- pwy allai fod angen gadael eu cartref yn y dyfodol



- pwy allai fod angen cymorth ychwanegol mewn argyfwng




Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor feddwl ymlaen. Mae meddwl ymlaen yn dda ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae hefyd yn arbed arian i'r Cyngor.



Mae angen cymorth ar lawer o bobl i wneud pethau yn ystod y dydd. Yn y gorffennol, roedd pobl yn mynd i ganolfannau dydd.



Nawr, gall pobl ddewis gwneud pethau yn eu cymuned neu ddefnyddio gwasanaeth dydd anableddau dysgu.



Mae Cydlynwyr Cymunedol gan y Cyngor. Mae ganddyn nhw sesiynau galw heibio mewn meddygfeydd.




Maen nhw'n helpu pobl ag anableddau dysgu i ddefnyddio gwasanaethau sydd ar gyfer unrhyw un. Mae ganddyn nhw waith mawr i'w wneud. Efallai y bydd angen i'r Cyngor wneud y gwasanaeth hwn yn fwy.



Roedd gan y Cyngor gynllun i ddechrau grwpiau cymunedol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, y gallai pobl eraill ymuno â nhw hefyd.



Ond nid yw pobl eraill wedi ymuno. Mae angen i'r Cydlynwyr Cymunedol weithio gyda mudiadau gwirfoddol i gael pobl ag anableddau dysgu a heb anableddau dysgu i wneud pethau gyda'i gilydd yn y gymuned.




Edrychodd Pwyllgor Cydweithredol Bae’r Gorllewin ar ffyrdd i ddechrau mentrau cymdeithasol. Busnesau yw’r rhain sy'n dda ar gyfer y gymuned.



Mae Cyngor Pen-y-bont wedi gofyn i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i droi Wood'B a B'Leaf yn fentrau cymdeithasol. Ymhen amser, bydd hyn yn arbed arian i'r Cyngor.



Yn y gorffennol, nid oedd pobl oedd yn byw mewn tai â chymorth yn gallu rhannu cymorth gyda phobl a oedd yn byw mewn cynllun tai â chymorth gwahanol.



Nawr mae cynlluniau tai â chymorth yn gweithio gyda'i gilydd fel y gall pobl rannu cymorth i wneud pethau yn ystod y dydd.




## Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




Mae gan y Cyngor dîm 'asiant newid' i helpu'r Cyngor i baratoi ar gyfer y Ddeddf newydd.




- Gwnaeth y tîm 'asiant newid':



- edrych ar gynlluniau pobl i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y swm cywir o ofal a chymorth



- gwneud yn siŵr bod holl staff y Cyngor yn gwybod am y Ddeddf newydd




- mae'n helpu staff i ofyn i bobl ag anableddau dysgu 'beth sy'n bwysig i chi?', nid 'pa wasanaethau sydd eu hangen arnoch chi?'



## Cydweithio

Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth. Mae hyn yn golygu bod pobl ag anableddau dysgu yn cael cymorth gwell.




Mae darparwyr gwasanaethau wedi dweud wrth y Cyngor ei bod yn anodd cael staff. Gofynnon nhw a yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw beth i wneud yn siŵr bod mwy o weithwyr gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont.



Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda phobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Maen nhw'n gwrando ar bobl ag anableddau dysgu.




Mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith gyda sefydliadau gwirfoddol. Gall sefydliadau gwirfoddol helpu'r Cyngor gael ffyrdd newydd i gefnogi pobl.



Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am weithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod pobl ym Mhen-y-bont yn cael bywydau gwell.



Mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn cydweithio'n dda yn y tîm anableddau dysgu cymunedol. Ond nid oes ganddyn nhw ffordd hawdd o gynllunio gyda'i gilydd neu rannu ffeiliau achos pobl.



Mae'r tîm anableddau dysgu yn dda am weithio gyda staff yng nghartrefi pobl, gwasanaethau dydd a gwasanaethau iechyd arbenigol.




Maen nhw’n dda am gynllunio ymlaen llaw a gyda’i gilydd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael cymorth da.





Mae'r Cyngor am weithio gyda'r Bwrdd Iechyd.



Mae hyn yn anodd oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn newid y ffordd y mae'n cael ei drefnu.



Nid oes ganddyn nhw ffordd o weithio gyda'i gilydd neu gynllunio gyda'i gilydd. Nid oes ganddyn nhw ffordd o wirio gyda'i gilydd os yw person ag anableddau dysgu yn cael y cymorth cywir.




Mae angen i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ddechrau gweithio gyda'i gilydd. Mae angen iddyn nhw ysgrifennu cynllun sy'n dweud:




- pa newidiadau y byddan nhw’n gwneud




- pryd y byddan nhw’n gwneud y newidiadau




- sut fydd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Pen-y-bont yn gweithio gyda'i gilydd ar wasanaethau anableddau dysgu



- sut fyddan nhw’n cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion



- sut fyddan nhw’n gwirio pa wahaniaeth mae'r newidiadau yn ei wneud i fywydau pobl

Meddyliodd Pwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin am ffordd dda i gynllunio ar gyfer pan fydd person ifanc yn dod yn oedolyn.




Bydd gan Ben-y-bont dîm gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg. Bydd Cyngor Pen-y-bont yn dechrau gwneud hyn ym mis Gorffennaf 2016.



Mae'r tîm anableddau plant yn yr un adeilad â'r tîm anableddau dysgu i oedolion.



Mae hyn yn ei gwneud yn haws iddyn nhw weithio gyda'i gilydd pan fydd pobl ifanc yn dod yn oedolion.




Mae angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda cholegau addysg bellach i wneud yn siŵr y gall pobl ag anableddau dysgu fynd i'r coleg.

Mae Pwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin yn cael gwybod am bobl a oedd wedi gorfod symud i ffwrdd o Ben-y-bont i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Maen nhw hefyd yn cael gwybod am bobl sy'n dal i fyw ym Mhen-y-bont sydd angen gwasanaeth nad oes gan Ben-y-bont.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud yn siŵr ei bod yn rhoi pobl Pen-y-bont yn gyntaf pan fydd yn gweithio gyda Phwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin.



**Cael llais**



Mae'r Cyngor am wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



Mae staff yn cefnogi pobl i siarad drostyn nhw'u hunain.



Mae pobl yn cael llais yn eu gofal a'u cymorth eu hunain.

Mae gan y Cyngor gytundeb gyda Phobl yn Gyntaf Pen-y-bont. Mae Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont yn:



- rhedeg digwyddiadau 'Dweud eich Dweud'



- cefnogi pobl i ddweud eu barn am eu bywydau eu hunain



- annog pobl i gymryd rhan wrth gynllunio gwasanaethau



- cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion

Mae'r Cyngor wedi gofyn i Tros Gynnal Plant gefnogi pobl ifanc anabl wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



Mae Fforwm Rhieni i gael. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni sy'n mynd yno â meibion neu ferched sy'n oedolion. Gallai fod rhieni pobl ifanc ac oedolion iau am gael eu fforwm eu hunain.



Mae Fforwm Rhieni a Phobl yn Gyntaf Pen-y-bont yn dweud eu barn am newidiadau i wasanaethau.

Gwnaeth y Cyngor:



- siarad â phobl sydd ag anableddau dysgu am newidiadau i wasanaethau dydd



- nid oedden nhw wedi gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu fel partneriaid cyfartal



- cynnwys pobl ag anableddau dysgu wrth ddewis staff newydd




Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael gormod o holiaduron.

Gall pobl gael cymorth gan Bobl yn Gyntaf Pen-y-bont i wneud cwynion. Nid oes gan y Cyngor daflen gwynion Hawdd ei Darllen.



Mae cynghorwyr yn siarad dros bobl sy'n byw yn eu cymuned. Siaradodd y cynghorwyr am hyn 71 o weithiau y llynedd.




## Cynlluniau pobl




Mae'r staff wedi gwneud peth gwaith ardderchog.



Mae ffeiliau pobl yn dangos bod staff yn gwrando'n ofalus ar bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.



Mae cynlluniau rhai pobl yn cael eu hysgrifennu mewn iaith anodd. Mae angen iddyn nhw gael eu hysgrifennu mewn iaith glir.




Mae rheolwyr achos yn gweithio allan sut i wneud cynllun gofal Hawdd ei Ddarllen.

Nid yw rhai cynlluniau yn dweud digon am sut y bydd y person yn cael ei gefnogi i ddysgu sgiliau newydd, bod yn fwy hyderus a dibynnu llai ar y Cyngor.



Mae eu cynlluniau yn dweud sut y byddan nhw'n cael eu cefnogi i aros yr un fath.



Dywedodd rhai pobl ag anableddau dysgu wrthon ni eu bod nhw am ddibynnu llai ar y Cyngor.




Mae angen i lawer o bobl ddysgu sut i deithio ar eu pennau'u hunain ar fysiau. Mae rhai pobl am gael gwaith â thâl. Mae angen i'r Cyngor wrando arnyn nhw a gwneud rhywbeth am hyn.



Mae'r Cyngor yn dda am feddwl am risgiau a sut y gall pobl gael eu cefnogi i fod yn fwy annibynnol **ac** aros yn ddiogel.



## Gwirio ansawdd



Nid yw'r Cyngor yn gwirio os yw ffeiliau pobl yn dda.



Edrychon ni ar ffeiliau rai pobl. Roedd gwybodaeth bwysig ar goll.



Mae angen i'r Cyngor gael ffordd o wirio bod gwneud cais i gyfyngu ar ryddid rhywun yn cael ei wneud yn dda.

Mae angen i'r Cyngor gadarnhau a yw bywydau pobl yn well oherwydd y newidiadau i wasanaethau.




Mae'n bwysig gwneud hyn ar gyfer pobl nad oes ganddyn nhw reolwr achos nawr, ac sydd wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau anableddau dysgu.



Mae'r Cyngor yn gwirio a yw darparwyr gwasanaeth yn rhoi gwerth da am arian.



**Staff**



Mae staff yn deall mai eu gwaith yw gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael bywydau gwell.



Mae staff yn cael gwiriad blynyddol i weld sut maen nhw'n dod ymlaen â'u gwaith.



Mae'r Cyngor yn rhoi contractau tymor byr i lawer o staff. Mae llawer o staff wedi bod yn newid swyddi.



Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ag anableddau dysgu i ddod i adnabod eu rheolwr achos. Mae 47 o bobl yn aros am reolwr achos.



Ar hyn o bryd, mae nyrsys cymunedol yn gwneud gwaith da gan wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu siarad â rhywun maen nhw'n ei adnabod.



Nid yw staff yn cael digon o oruchwyliaeth.



## Cynghorwyr



Mae cynghorwyr yn gwybod am y newidiadau.

Nid yw rhai Cynghorwyr yn hapus fod Pwyllgor Cydweithredol Bae’r Gorllewin yn gwneud penderfyniadau am newidiadau.



Mae cynghorwyr yn meddwl ei bod yn bwysig i ymweld â gwasanaethau anableddau dysgu.



Mae cynghorwyr yn meddwl y byddai'n dda cael 'hyrwyddwr anableddau dysgu'




## Cyfathrebu




Ychydig iawn o bobl ym Mhen-y-bont sy'n siarad Cymraeg. Felly mae bron neb am gael gwasanaeth yn Gymraeg.





Mae'r Cyngor yn gwybod am Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg i staff, ond nid yw llawer o staff yn dewis mynd.




Mae mwy o bobl am gael gwasanaethau yn Iaith Arwyddion Prydain, Makaton neu Braille. Mae gan y Cyngor ddehonglwyr a staff sydd wedi cael hyfforddiant.



Mae ffeiliau pobl yn dangos bod staff yn defnyddio pasbortau cyfathrebu a systemau cyfnewid lluniau.




Mae angen i staff ddefnyddio'r system wybodaeth goleuadau traffig pan fydd angen i rywun fynd i'r ysbyty.



Pan fydd y Cyngor yn prynu gwasanaethau, mae'n gwneud yn siŵr bod y darparwr gwasanaeth yn meddwl am sut mae pobl yn cyfathrebu.




## Gwybodaeth



Gall pobl sydd ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol ddefnyddio 'un pwynt mynediad' y Cyngor i gael gwybodaeth.




Ond mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn dewis cael gwybodaeth gan y tîm anableddau dysgu. Maen nhw’n hapus gyda'r wybodaeth a'r cyngor maen nhw’n ei gael.



Nid yw rhai pobl ag anableddau dysgu yn gwybod sut i gael gwybodaeth gan y Cyngor. Maen nhw'n cael gwybodaeth gan Bobl yn Gyntaf Pen-y-bont neu eu gweithwyr cymorth cyflogedig.



Weithiau, mae gwybodaeth yn ddryslyd. Er enghraifft, gofynnodd pobl gwestiwn am wasanaethau dydd a chael atebion gwahanol gan wahanol aelodau o staff.



Weithiau mae pobl yn meddwl bod y wybodaeth yn anodd ei deall.



## Gofalwyr teuluol




Mae gofalwyr teuluol yn cael dweud eu dweud am ofal a chymorth y person y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.



Mae gofalwyr teuluol yn cael cynnig asesiad i weld pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr yn dewis peidio â chael asesiad.

Mae rhai gofalwyr teuluol yn mynd i Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont am wybodaeth a chymorth. Mae angen i'r tîm anableddau dysgu ddod o hyd i berson cyswllt i weithio gyda Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont.




Mae'r Cyngor yn bwriadu dweud wrth ofalwyr am y Ddeddf newydd.





## Cadw pobl yn ddiogel

Mae'r Tîm Diogelu yn:



- diogelu oedolion a allai fod yn anniogel




- cyfyngu ar ryddid rhywun i'w gadw'n ddiogel



- gwirio ansawdd gwasanaethau



- chwilio am unrhyw beth sy'n mynd o'i le mewn mwy nag un gwasanaeth




- gwneud rhywbeth pan fydd pryderon am gartref gofal





Mae darparwyr gwasanaethau yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n credu y gallai rhywun fod yn anniogel.




Mae ffeiliau pobl yn dangos bod y staff yn dda am feddwl am y risgiau.



Mae ffeiliau'r rhan fwyaf o bobl yn dangos eu bod nhw'n cael eu cadw'n ddiogel. Ond roedden ni'n poeni am ddau berson. Dywedon ni wrth y Cyngor. Gwnaeth y Cyngor gywiro pethau. Ond cymerodd 4 wythnos.




Mae 385 o bobl yn aros i gael gwybod a oes angen cyfyngu ar eu rhyddid i'w cadw'n ddiogel. Nid ydyn ni'n gwybod faint o'r bobl hyn sydd ag anableddau dysgu.



Os na all rywun wneud ei benderfyniad ei hun am ofal a chymorth, mae angen i'r Cyngor fynd i'r Llys.



Ni all y Cyngor wneud penderfyniadau ar ran y person tan iddyn nhw fynd i'r Llys.




Mae 174 o bobl mewn llety byw â chymorth yn aros i'r Cyngor fynd i'r Llys. Mae angen i'r Cyngor benderfynu beth i'\ wneud am hyn. Nid ydyn ni'n credu bod gan y Cyngor gynllun fydd yn gweithio.




## Arian



Mae staff cyllid yn edrych ar ôl yr arian yn dda. Maen nhw'n gwybod mai'r dasg gyntaf yw gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth cywir, a'r ail dasg yw edrych ar ôl yr arian.



Mae angen mwy o hyfforddiant ar reolwyr tîm cyn gofyn iddyn nhw ofalu am gyllideb y tîm.

Mae Cyngor Pen-y-bont wedi arbed arian drwy newid y ffordd y mae'n cefnogi pobl. Mae'r tîm 'asiant newid' wedi bod yn gwirio a yw pobl yn cael y swm cywir o ofal.



Mae'r Cyngor wedi edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu. Maen nhw wedi arbed arian drwy newid y ffordd y maen nhw'n trefnu gwasanaethau.



Bydd angen i'r Cyngor arbed mwy o arian y flwyddyn nesaf.

## Beth mae angen i Gyngor Pen-y-bont ei wneud





- Cynllunio ffyrdd cryfach yn gyflym i gydweithio â sefydliadau gwirfoddol.

- Gwirio bod cynllun pawb yn dweud sut y byddan nhw'n ennill sgiliau newydd, yn dod yn fwy hyderus ac yn dibynnu llai ar y Cyngor.



- Gwirio bod staff yn cael goruchwyliaeth.




Ysgrifennu cynllun yn dweud beth y byddan nhw'n ei wneud am y rhestr aros ar gyfer pobl y gallai fod angen cyfyngu ar eu rhyddid.



- Gwirio a ydyn nhw'n gwneud gwaith da i bobl y gallai fod angen cyfyngu ar eu rhyddid.




- Gwneud cynllun gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cydweithio a phenderfynu pryd bydd hyn yn dechrau.




**Rhaid i Gyngor Pen-y-bont ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

AGGCC CSSIW

**Dylai Cyngor Pen-y-bont anfon copi o'u cynllun aton ni.**




**Byddwn yn gwirio a yw Cyngor Pen-y-bont yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn eu cynllun.**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

## Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd



Mae gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cynnwys:



- tîm iechyd cymunedol



- tîm ymddygiad arbenigol



- dietegwyr anableddau dysgu arbenigol




Mae'r tîm iechyd cymunedol yn rhan o Dîm Anableddau Dysgu Cymunedol Pen-y-bont.




Mae gwasanaethau iechyd anableddau dysgu yn rhan o Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd.



Mae hon yn Gyfarwyddiaeth newydd. Efallai y bydd pobl yn y Gyfarwyddiaeth yn newid eto eleni. Efallai bydd y ffordd y mae’r Gyfarwyddiaeth yn cael ei threfnu yn newid eto eleni.



# Pethau da am wasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont

Dyma rai pethau da am y gwasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont:




- Mae staff yn dda am helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy iach ac i gael ffordd o fyw mwy iach.



- Mae pobl yn hapus gyda'r cymorth iechyd y maen nhw'n ei gael.



- Mae staff yn aros yn y tîm yn ddigon hir i bobl ddod i'w hadnabod.



- Mae'r tîm iechyd cymunedol yn gweld yr hyn sydd angen ei wneud ac yn ei wneud. Er enghraifft, maen nhw'n gwneud gwaith gwych gyda phobl sydd angen mynd i'r ysbyty a phobl ifanc sy'n dod yn oedolion.




- Mae staff yn deall anghenion pobl, ac yn gweithio gyda'i gilydd i feddwl am beth allai fod ei angen ar bobl yn y dyfodol.



## Trefnu a chynllunio



Mae'r Bwrdd Iechyd yn newid y ffordd y mae'n cael ei drefnu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddyn nhw ddatblygu eu gwasanaethau iechyd anableddau dysgu.




Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud ei fod yn gwneud cynlluniau, a bydd digwyddiad yn Chwefror 2016 i wrando ar bobl.




Nid oes gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Dylai'r Bwrdd Iechyd wrando ar y tîm iechyd cymunedol oherwydd mae ganddyn nhw weledigaeth dda a chlir ar gyfer y dyfodol.



Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwirio beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu.



Mae staff uwch iechyd am wella gwasanaethau i bobl nad ydyn nhw'n gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ym Mhen-y-bont.




Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud cynlluniau ar gyfer gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu sydd angen:



- gwasanaethau iechyd meddwl



- sy’n mynd i drwbl gyda'r gyfraith



- sy’n bobl ifanc sy'n dod yn oedolion



- sydd angen mynd i'r ysbyty




Mae'r tîm iechyd cymunedol yn gwneud gwaith da. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu cefnogi.




Mae'r Bwrdd Iechyd yn meddwl am gael nyrsys cyswllt iechyd. Eu gwaith yw gwneud yn siŵr bod meddygon, ysbytai a gwasanaethau iechyd eraill yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.




## Cydweithio



Mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maen nhw yn yr un swyddfa. Maen nhw'n cael cyfarfodydd gyda'i gilydd. Maen nhw'n gweithio ar brosiectau newydd gyda'i gilydd.



Mae hyn yn fwy anodd i'w wneud oherwydd nad ydyn nhw'n rhannu system gyfrifiadurol.



Mae staff iechyd yn gweithio'n dda gyda darparwyr gofal cymdeithasol.




Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithio llawer gyda'r Cyngor lleol.

Caring Together
Western Bay
Health and Social Care Programme
Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol



Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o Bwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin. Nod y Pwyllgor yw i bobl sydd angen gofal iechyd a cymdeithasol gael bywydau gwell.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn gwneud hyn drwy feddwl gyda'i gilydd, cynllunio gyda'i gilydd a gwneud newidiadau gyda'i gilydd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn barod i wneud llawer o feddwl gyda'i gilydd neu gynllunio gyda'i gilydd.





**Staff**



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd a staff iechyd cymunedol gyfathrebu'n well.



**Cael llais**



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wrando a gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer y dyfodol.




Maen nhw'n dweud y byddan nhw'n gwneud hyn, ond nid ydyn ni'n siŵr sut y byddan nhw'n ei wneud.




Mae staff yn rhoi holiadur i bobl fel y gall pobl ddweud eu barn am y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.

Mae arweinydd y tîm yn edrych ar beth mae pobl yn ei ddweud ac yn meddwl am ffyrdd o wneud y gwasanaethau'n well.




Mae gofalwyr teuluol yn cael dweud eu dweud am wneud gwasanaethau'n well pan fydd angen i rywun ag anableddau dysgu fynd i'r ysbyty.



Mae angen i staff gael llais hefyd.

## Cynlluniau pobl








Mae gan bobl gynlluniau da. Mae'r cynlluniau yn edrych ar beth sydd ei angen ar bobl nawr a beth allai fod ei angen arnyn nhw yn y dyfodol.



Weithiau, mae angen cynllunio cefnogaeth pobl yn well. Er enghraifft, pan fydd person ifanc yn dod yn oedolyn. Mae'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol yn gweithio ar hyn.



## Cyfathrebu




Mae arweinydd y tîm iechyd yn siarad Cymraeg. Gall y Bwrdd Iechyd gynnig gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.



## 'Agosach at Adref'

Caring Together Western Bay
Health and Social Care Programme
Gofalu Gyda'n Gilydd Bae'r Gorllewin
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Mae Pwyllgor Cydweithredol Bae'r Gorllewin yn gweithio ar gynllun o'r enw 'Agosach at Adref'.



Mae hyn ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n gallu cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw yn lleol. Tua 6 mlynedd yn ôl, roedd angen i rai pobl symud i ffwrdd o Ben-y-bont i gael y gwasanaethau oedd eu hangen arnyn nhw.



Mae gan 'Agosach at Adref' un gwasanaeth ym Mhen-y-bont. Mae gwasanaeth arall yn cael ei gynllunio. Mae'r gwasanaethau hyn yn golygu y bydd mwy o bobl yn gallu cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnyn nhw yn lleol.



Mae rhai o'r bobl sydd wedi symud i ffwrdd o Ben-y-bont yn hapus iawn lle maen nhw’n byw nawr. Ni fydd y Bwrdd Iechyd yn eu gorfodi nhw i symud yn ôl i Ben-y-bont.

## Cadw pobl yn ddiogel




Mae'r tîm iechyd cymunedol yn gweithio gyda Chyngor Pen-y-bont a'r Bwrdd Iechyd i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel ac i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn ddiogel.




Os gallai rhywun fod mewn perygl, mae'r tîm iechyd yn ddweud wrth Gyngor Pen-y-bont. Nid ydyn nhw bob amser yn dweud wrth y Bwrdd Iechyd hefyd.

## Beth mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei wneud



- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud cynlluniau clir ar gyfer y dyfodol. Mae angen digon o fanylion yn y cynlluniau fel y gall pobl:



  - wirio a yw'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael eu gwneud



  - gwirio ai'r cynllun yw'r cynllun cywir i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau




- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael cynlluniau i ddweud sut y byddan nhw'n gwella:



  - cefnogi pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl, sydd mewn trwbl gyda'r gyfraith, sy'n bobl ifanc sy'n dod yn oedolion neu sydd angen mynd i'r ysbyty hefyd




  - helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy iach



  - helpu meddygon, ysbytai a gwasanaethau iechyd eraill i gefnogi pobl ag anableddau dysgu



- Dylai'r Bwrdd Iechyd gael cynllun i ddatblygu gwasanaethau newydd i bobl ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol.




- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod systemau clir fel eu bod yn gwybod os bydd staff iechyd yn poeni am ddiogelwch rhywun.




- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i siarad â staff am newidiadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud.



- Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod gan staff system dda ar gyfer cadw ffeiliau pobl.




- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wrando ar a gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a staff wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer y dyfodol.




**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




**Rhaid i'r cynllun ddweud**




- **beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn**




- **pryd fyddan nhw'n ei wneud**




**Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan fyddan nhw wedi gwneud beth mae'n ei ddweud yn y cynllun.**